Awgrymiadau Defnyddiol i Swyddogion Arholiadau

Mae pawb yn gwybod bod arholiadau yn amser prysur i fyfyrwyr. Ond mae hefyd yn amser prysur i swyddogion arholiadau ledled y wlad, sy'n gyfrifol am sicrhau bod pob arholiad unigol yn eu Ysgolion a cholegau yn rhedeg yn esmwyth.

Mae'r Tîm Cymorth Canolfan Cymwysterau Cymru yn ymweld â chanolfannau ledled y wlad i helpu swyddogion arholiadau i baratoi. Nawr bod papurau'n cyrraedd mewn canolfannau, rydym wedi rhoi awgrymiadau da at ei gilydd ar yr adeg brysur hon o'r flwyddyn.

Cynlluniwch ymlaen llaw.
Sicrhewch eich bod yn gwybod yn union beth i'w wneud ar bob diwrnod o dymor yr arholiadau fel nad oes unrhyw beth annisgwyl yn codi ar y funud olaf. Cyfeiriwch at y ddogfen Gofynion Arholiad y Corff Dyfarnu berthnasol. Cynhaliwch bob arholiad fel petaech chi yn disgwyl arolygiad.

Gwnewch restrau gwirio ar gyfer gofynion y diwrnod a'r ystafell arholiad.
Sicrhewch fod eich goruchwylwyr yn mynd drwy'r rhestrau ym mhob sesiwn.

Cadarnhewch y dyddiad.
Mae gofyn i ddau berson wirio clawr blaen y papurau arholiad er mwyn sicrhau'r canlynol:
a. Dyddiad heddiw sydd wedi'i nodi
b. Arholiad bore neu brynhawn ydyw
c. Hwn yw'r papur cywir ar gyfer yr ymgeiswyr

Codwch eich llais.
Siaradwch â'r Cyrff Dyfarnu, ein Tîm Cefnogi Canolfannau Cymwysterau Cymru ac unrhyw rwydweithiau cymorth sydd gennych o bosibl - rydym ni i gyd yma i helpu. Peidiwch â chymryd unrhyw beth yn ganiataol.

Cadwch gofnodion ysgrifenedig.
Gofynnwch am lofnodion ar gyfer pob newid y gofynnir amdano. Sicrhewch eich bod yn creu cofnod digwyddiadau ar gyfer pob arholiad a chofnodwch bwyntiau gweithredu lle bo angen. Cyfeiriwch at y cofnod i roi unrhyw bryderon ar waith.

Sicrhewch eich bod yn creu cynllun wrth gefn.
Dychmygwch beth fyddai'n digwydd pe na fyddech yn gallu mynd i'r gwaith. Pwy fyddai'n rheoli'r sefyllfa? Sut y byddant yn gwybod ble mae pethau a beth i'w wneud?

Sicrhewch eich bod yn deall eich rôl.
Darllenwch y ddogfennaeth gan JCQ a deallwch yn llawn yr hyn sy'n ddisgwyliedig gennych, a sicrhewch fod eich tîm goruchwylio yn deall eu rôl yn yr ystafell arholiad.

Sut aeth hi?
Trafodwch â'ch Goruchwylwyr ar ôl yr arholiad er mwyn gweld beth oedd wedi gweithio'n dda a'r hyn nad oedd wedi gweithio'n dda a beth y gellid ei wella. Rhowch wybod i'ch Uwch Rheolwyr, gyda chynllun gweithredu ar gyfer cyfresi arholiadau yn y dyfodol.

Yn olaf, cofiwch storio pob papur yn ddiogel.

Os ydych yn swyddog arholiadau ac mae gennych awgrymiadau defnyddiol i'w rhannu, rhowch wybod i ni drwy eu hanfon i comms@cymwysteraucymru.org